**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At holl Aelodau'r Cynulliad

20 Ionawr 2016

Annwyl Aelod o'r Cynulliad

Yn dilyn nifer o bwyntiau a godwyd gan Aelodau yn ystod y Datganiad Busnes ar 12 Ionawr, rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r newyddion diweddaraf i chi am ddiogelwch ar y ffyrdd a bod yn barod am y gaeaf.

Mae sicrhau diogelwch a dibynadwyedd rhwydwaith y traffyrdd a'r cefnffyrdd yn un o'm prif flaenoriaethau, ac mae bob amser ar fy meddwl wrth wneud penderfyniadau am ariannu trafnidiaeth.

Mae bod yn barod am y gaeaf yn hanfodol i bob un o'n rhwydweithiau trafnidiaeth. Mae safonau ar gyfer graeanu rhwydwaith y traffyrdd a'r cefnffyrdd wedi'u nodi yn ein Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd. Cod Ymarfer Priffyrdd sydd wedi'u Cynnal a'u Cadw'n dda, a gyhoeddwyd gan Grŵp Cyswllt Ffyrdd y DU, yw'r canllaw i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Mae fy swyddogion yn dweud wrthyf fod llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn dewis defnyddio'r Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd yn ei le, sydd ar gael i'r cyhoedd ei weld. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei gyflwyno i awdurdodau lleol fel canllaw, ac nid ydym ychwaith yn eu cyfarwyddo nac yn eu cynghori i'w ddefnyddio.

Mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd ag awdurdodau lleol i fonitro lefelau stoc halen, i sicrhau y gallwn gynnal diogelwch a dibynadwyedd y rhwydwaith drwy'r gaeaf. Rydym hefyd yn gweithio'n agos â chwmnïau rheilffyrdd a bysiau i sicrhau bod y system trafnidiaeth gyhoeddus yn barod.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Gohebiaeth.edwina.Hart@cymru.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cododd Nick Ramsay y mater am yr A466 yng Nghas-gwent hefyd. Ysgrifennais at bob aelod ar 7 Rhagfyr gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad o Ddiogelwch Cefnffyrdd, a gynhaliwyd yr haf diwethaf. Gallwch weld canfyddiadau'r adolygiad hwn ar wefan Traffig Cymru drwy'r ddolen ganlynol: http://www.traffic-wales.com/Trunkroadsafetyreview.aspx?lang=cy-GB. Yn dilyn yr adolygiad hwnnw a'r gwrthdrawiad angheuol ym mis Hydref, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gynnal astudiaeth o ddiogelwch cefnffordd yr A466.

Edwina Hart